**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA431 - Rheoliadau Clefydau Moch 2014**

Mae'r rheoliadau cyfansawdd hyn yn gweithredu cyfraith yr UE ar gyfer rheoli:

a) clefyd pothellog y moch ('SVD') a geir yn y Gyfarwyddeb Cyngor 92/119/EEC sy'n cyflwyno mesurau cymunedol cyffredinol ar gyfer rheoli rhai clefydau anifeiliaid a mesurau penodol ynghylch clefyd pothellog y moch;
b) clwy clasurol y moch ('CSF') a geir yn y Gyfarwyddeb Cyngor 2001/89/EC ar fesur cymunedol i reoli clwy clasurol y moch;
c) clwy Affricanaidd y moch ('ASF') a geir yn y Gyfarwyddeb Cyngor 2002/60/EC sy'n nodi'r trefniadau penodol ar gyfer rheoli clwy Affricanaidd y moch a diwygio Cyfarwyddeb 92/199/EEC o ran clefyd Teschen a chlwy Affricanaidd y moch.

Dim ond pan fo amheuaeth o ASF, CSF neu SVD neu os cânt eu cadarnhau ym Mhrydain Fawr y mae'r Rheoliadau yn gymwys.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn disodli'r offerynnau statudol a ganlyn, yng Nghymru:

- Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003
- Gorchymyn Clwy Clasurol y Moch (Cymru) 2003
- Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009
- Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009

**Gweithdrefn**: Negyddol

## 1. Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2(ix) (sef, nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).

- Oherwydd eu bod yn rheoliadau cyfansawdd sy'n destun gweithdrefn seneddol San Steffan, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig.

## 2. Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## 3. Ymateb y Llywodraeth

Bydd y Rheoliadau cyfansawdd hyn yn berthnasol i Brydain Fawr ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Senedd y DU. Felly, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud, na'i osod, yn ddwyieithog.

## 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2014.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd technegol yn adran 1.